19. YR ESGOB A'R BRENIN
(Stori o'r ddeuddegfed ganrif)

Tua diwedd y ddeuddegfed ganrif pan oedd Richard y *Lionheart* yn rheoli Lloegr, yr oedd Archesgob yn Lincoln o'r enw Huw. Hen ŵr caredig a gwên ar ei wyneb bob amser ydoedd. Yr oedd yn was ffyddlon i Dduw ac i'r brenin, er nad oedd Richard bob amser yn gwerthfawrogi hyn.

Yr oedd rhyfela yn fusnes costus iawn ac ar un achlysur penderfynodd Richard – oedd yn ymladd Brenin Ffrainc – y byddai'n ceisio arbed arian. Gofynnodd i Huw dalu i ddeuddeg o'i ganoniaid o swydd Lincoln ymgymryd â dyletswyddau llysgenhadon dros y môr. Nawr, ystyriai Huw nad oedd hi'n deg disgwyl i'r Eglwys dalu i'w chlerigwyr weithio dros y brenin. Felly dywedodd 'na' – ac ar hynny cymerodd Richard holl eiddo Huw oddi arno.

Wel! Dyna lanast! Byddai colli deuddeg o'u canoniaid wedi bod yn ddigon o ergyd i glerigwyr swydd Lincoln, ond yr oedd colli eu holl stadau a thiroedd yr esgob yn drychinebus. Penderfynwyd y dylai Huw arwain dirprwyaeth o glerigwyr i Ffrainc i geisio rhoi trefn ar bethau.

Ond sut? Unwaith y cawsant eu traed ar dir Ffrainc nid oedd neb yn sicr beth i'w wneud nesaf. Wrth i'r wythnosau fynd heibio dechreuodd canoniaid Huw aflonyddu. Un bore oer o Fawrth, cyfarfu'r ddirprwyaeth fyr-ei-hamynedd â'r Esgob mewn Plasty Ffrengig

drafftiog. Er na ddywedodd neb ddim yr oedd rhyw ymdeimlad fod pawb yn beio Huw am y sefyllfa.

'Rydyn ni wedi bod yma ers bron i fis,' cwynodd un canon. 'A dyw pethau'n gwella dim, ond yn gwaethygu. Yn ôl rhai o'r adroddiadau diweddaraf mae'r brenin wedi tyngu llw i ddial ar ei elynion, ac mae hynny'n ein cynnwys ni.'

Dial. Yr oeddynt yn gwir ofni'r gair hwn.

'Ond nid ni yw gelynion y brenin!' meddai'r Esgob Huw yn addfwyn. 'Fe wnaf i'n siŵr fod ein mawrhydi yn deall hynny y tro nesaf y gwelaf ef.'

'Sut gwnei di hynny?' holodd yr ail ganon yn llym.

'Yn union fel pob tro arall. Fe egluraf ei ddyletswyddau tuag at Dduw a'i helpu i weld ei gamgymeriadau.'

Petai'r cyfarfod hwn wedi bod yn sioe gwis byddai seinydd aflafar uchel wedi canu i ddangos fod yr ateb hwn yn gwbl anghywir.

'Yn ôl Archesgob Caergaint y ffordd orau i gymodi â'r brenin yw danfon rhodd ariannol hael iddo,' meddai'r canon Walter Mapp.

Ping! Gwenodd pawb ac amneidio'u pennau'n gadarnhaol. Yr oedd Huw yn drist. Roedd Walter yn hen ffrind. Dylai ef o bawb wybod nad dyma'r ffordd iawn i ymddwyn. 'Felly, rydym yn prynu heddwch heddiw. Ond beth fydd yn digwydd yfory? Mae'r brenin mor awchus am arian ag y mae dyn sy'n boddi am gael aer. Fydd dim diwedd arni wedyn.'

Nid oedd unrhyw ymateb cadarnhaol y tro hwn. Roedd ofn ar gyfeillion Huw. Nid oeddent am weld eu hesgob yn gwrthsefyll y brenin. Roedd yn rhy beryglus. Roedd ganddynt ormod i'w golli. Roeddynt yn unfryd wrth geisio perswadio Huw i dderbyn cyngor yr Archesgob Hubert a danfon arian.

Parhaodd y trafodaethau am hydoedd. Erbyn iddi nosi roedd Huw mewn dryswch llwyr. Roedd yn caru'r gwŷr hyn fel petaent yn feibion iddo. Ac fel unrhyw dad caredig roedd hi'n anodd dweud 'na'.

'Frodyr, mae hyn wedi mynd ymlaen yn rhy hir,' meddai o'r diwedd. 'Gofyn i Dduw ein harwain fyddai'r peth gorau. Fe wnawn ni gyfarfod eto yn y bore.'

Roedd y distawrwydd yn llethol wrth i bawb adael y neuadd. Ar ei ben ei hun bach, treuliodd Huw oriau hir ar ei liniau'n erfyn ar Dduw am arweiniad.

O'r diwedd aeth i'w wely. Bu'n troi a throsi am rai oriau. Yna cafodd freuddwyd – breuddwyd hynod galonogol. 'Bydd Duw yn

rhoi nerth a chryfder i'w bobl,' addawodd llais nefol. Y bore canlynol, wrth godi, roedd y sbarc yn ôl yn llygaid Huw eto. Yr oedd wedi cael ei ateb. Petai holl glerigwyr Ewrop yn dadlau yn ei erbyn fedrai yr un ohonynt newid ei feddwl. Ni fyddai unrhyw arian yn cael ei ddanfon at y brenin.

Yn rhyfedd iawn, ddaeth yr un o'r canoniaid i'w gyfarfod y diwrnod hwnnw na'r diwrnod canlynol. Yn hytrach, ychydig yn ddiweddarach, daeth hen gyfaill Huw, yr Abades Matilde, i ymweld ag ef. Yr oedd un cip ar ei hwyneb yn ddigon i Huw wybod nad digwydd pasio heibio roedd hi. Yr oedd rhywbeth wedi digwydd. Roedd rhaid cadw'r cwbl yn dawel am y tro. Ond gan fod y newydd yn effeithio'n uniongyrchol ar sefyllfa Huw, credai y dylai ef gael gwybod. Yr oedd y Brenin Richard ar ei wely angau. Ni fyddai'n gallu dial ar neb nawr.

Yn fwy na thebyg, byddai gŵr llai duwiol na Huw wedi croesawu'r fath newydd. Ond roedd Huw yn wirioneddol drist. Yn wir, yr unig beth a roddai gysur iddo oedd clywed fod y brenin yn ei salwch wedi troi at Dduw. Ac roedd geiriau Richard yn dangos ei fod, wedi'r cyfan, yn parchu Huw ac yn ei ystyried yn gyfaill.

'Petai pob un o arweinwyr yr eglwys fel Huw,' meddai, 'fyddai yr un brenin o fewn y deyrnas Gristnogol byth yn meiddio herio'r un Esgob.'

HYD: 5 munud

NEGES: Gall cyfeillion, hyd yn oed rhai sy'n Gristnogion, wneud tro sal â chi mewn argyfwng, ond mae gan y rhai sy'n ymddiried yn Nuw gyfaill cadarn i bwyso arno bob amser.

DARLLEN: 2 Timotheus 4: 16–18; Marc 14: 32–41; Salm 41.

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganed y Sant Huw o Lincoln oddeutu 1140 yn Avalon, Ffrainc, a bu farw yn Llundain ar 16 Tachwedd, 1200. Cyn cael ei benodi'n Esgob Lincoln yn 1186 bu'n brior cyntaf tŷ Cathusaidd yn Witham, Essex. Fel prior ac esgob bu'n warchodwr dros ryddid yr eglwys. Oherwydd ei ddidwylledd a'i burdeb yr oedd yn fawr ei barch ymhlith y tri brenin Seisnig y bu'n eu gwasanaethu – y Brenin Harri II, Richard I, a'r Brenin John.